Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Plas Newydd**

**Ffordd Pwllheli**
**Cricieth**
**LL52 0RR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/08/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Gofal Plas Newydd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Pangea Healthcare Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 09 Mai 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Diben yr arolygiad hwn oedd cadarnhau a yw'r darparwr a'r unigolyn cyfrifol wedi gwneud y gwelliannau gofynnol i'r gwasanaeth yn dilyn y camau gofynnol a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Felly, ni wnaethom ystyried pob thema arolygu yn fanwl.

Mae gwaith wedi dechrau i wella'r amgylchedd, ond mae llawer o feysydd a nodwyd yn yr arolygiad diweddaf yn berthnasol o hyd. Nodwyd sawl mater iechyd a diogelwch gennym sy'n destun pryder parhaus. Gwelsom faterion yn ymwneud â hylendid mewn perthynas â'r amgylchedd. Mae contractwyr allanol yn ymdrin â rhai o'r materion amgylcheddol.

Nid oes rheolwr yn y gwasanaeth ar hyn o bryd, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r trefniadau rheoli o ddydd i ddydd. Mae'r trefniadau ar gyfer datblygu a hyfforddi pob aelod o'r staff wedi gwella ond mae angen parhau â'r trefniadau hynny er mwyn gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau bob dydd. Mae'r staff yn trin y bobl â pharch, a gwelsom y staff yn ymateb yn brydlon i anghenion a dewisiadau'r unigolion. Mae'r bobl yn gallu ymlacio ac yn gyfforddus yng nghwmni'r staff sy'n sgwrsio mewn modd caredig, gofalgar a pharchus. Gall y bobl ddewis aros yn eu hystafelloedd gwely neu ymuno ag eraill yn y lolfa neu yn y cyntedd. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y staff.

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt ac yn cael rhai cyfleoedd i ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau. Gallant ymlacio yn eu hystafelloedd gwely neu yn un o'r ardaloedd cymunedol i sgwrsio, gwylio'r teledu neu ymuno mewn gweithgareddau. Mae detholiad o lyfrau, gemau ac eitemau crefft ar gael yn hwylus o amgylch y cartref. Dywedodd un ymwelydd wrthym y byddai'n hoff o weld y bobl yn cael cynnig mwy o weithgareddau.

Mae'r staff yn gofalu am iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl, a gwelsom fod y cynlluniau personol wedi cael eu diweddaru i gynnwys dewisiadau personol. Mae system electronig newydd wedi cael ei chyflwyno i gynnwys cynlluniau personol ac asesiadau risg.

Mae ansawdd yr amgylchedd wedi bod yn destun pryder ers cryn amser, ac mae llawer o'r materion a godwyd yn ystod arolygiadau blaenorol yn parhau. Mae rhai ardaloedd o'r amgylchedd wedi cael sylw ond mae cyflwr gwael yr adeilad yn golygu nad yw'r bobl yn cael eu gwerthfawrogi na'u parchu bob amser. Wrth drafod yr amgylchedd, dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn fodlon ar y llawr newydd yn ei ystafell wely. Dywedodd ymwelydd ac aelod o'r staff wrthym y byddent yn hoffi gweld gwelliannau yng nglendid y safle. Nid yw'r amgylchedd yn cefnogi llesiant y bobl, nac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau delfrydol.

Gwelsom welliannau yn natblygiad y staff. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth i amddiffyn y bobl rhag niwed ac esgeulustod.

Darperir y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Clywsom y staff yn siarad â'r bobl yn Gymraeg ac yn Saesneg, i'w helpu i deimlo'n gartrefol.

## Gofal a Chymorth

Gwelsom y staff yn diwallu anghenion y bobl mewn modd gofalgar. Mae rotas y staff yn dangos bod tri gweithiwr gofal ar ddyletswydd yn ystod y dydd a dau yn ystod y nos. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod digon o weithwyr gofal ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae proses recriwtio rheolwr a staff domestig yn barhaus.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Cyflwynwyd rhaglen feddalwedd ddigidol newydd. Mae'r gweithwyr gofal yn defnyddio'r rhaglen ar ddyfeisiau symudol y gwasanaeth i storio'r holl ddogfennaeth bersonol am bobl. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau personol ac asesiadau risg sy'n rhoi gwybodaeth i'r staff i'w galluogi i ddarparu gofal a chymorth i'r bobl yn unol â'r anghenion a nodwyd.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu dewis sut i dreulio eu diwrnodau, naill ai yn eu hystafelloedd gwely neu yn un o'r ardaloedd cymunedol. Wrth i ni arsylwi, gwelsom fod rhai o'r bobl yn eistedd yn y lolfa yn gwylio'r teledu, a bod pobl eraill yn eistedd yn y cyntedd neu yn eu hystafelloedd gwely. Clywsom y staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd ystyrlon, ac roedd gweithgareddau un-i-un yn cael eu cynnal yn ystod y prynhawn. Cynigir gweithgareddau fel gofal ewinedd a gemau bwrdd. Mae croeso i ymwelwyr a gallant dreulio'r diwrnod gyda'u perthnasau os byddant am wneud hynny. Dywedodd un unigolyn sy'n cael cymorth wrthym *"Staff are kind, the food is good, I'm lucky to be here",* a dywedodd un arall, *"The food is good, and I can ask for anything I want".* Dywedodd perthnasau wrthym *"Very good in every way, food good and staff are aware of my relative's needs. The home could be cleaner and more activities for people."* Clywsom y staff yn siarad Cymraeg a Saesneg â'r bobl yn unol â'u dewisiadau, i helpu'r bobl i gael teimlad o berthyn.

Ni wnaethom edrych yn fanwl ar y trefniadau ar gyfer rhoi a storio meddyginiaeth yn ystod yr arolygiad hwn. Mae'r staff gofal uwch yn cymryd cyfrifoldeb am drefniadau rhoi a storio meddyginiaethau. Mae'r staff uwch a'r Unigolyn Cyfrifol yn adolygu'r trefniadau storio meddyginiaethau a'r ystafell feddyginiaeth i greu ardal glinigol ddiogel. Nid yw trefniadau storio cyffuriau a reolir ac eitemau gwerthfawr eraill yn cydymffurfio â'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth bresennol. Er nad oes angen cymryd camau ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

## Yr Amgylchedd

Yn ystod yr arolygon blaenorol, nodwyd sawl mater iechyd a diogelwch gennym mewn perthynas â pheryglon baglu a risg o anaf i'r bobl. Mae rhai o'r risgiau hyn yn berthnasol o hyd ac yn parhau i beri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly mae'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn parhau i fod yn agored. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r methiannau hyn.

Nid yw'r amgylchedd yn annog y bobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol. Sgôr hylendid bwyd y cartref yw tri o hyd, allan o sgôr bosibl o bump ar gyfer safonau hylendid. Gwelsom nad oedd y gegin wedi cael ei glanhau ond mae angen rhagor o waith i wella safonau'r broses o baratoi bwyd a'r ardaloedd gweini. Mae angen cynnal gwaith glanhau trylwyr mewn rhannau eraill o'r cartref hefyd, fel y toiledau, rhai o'r waliau, a'r carpedi. Mae'r broses o recriwtio staff domestig yn barhaus ac mae dau aelod newydd o staff domestig wrthi'n mynd drwy'r broses gyflogi. Dywedodd staff ac ymwelwyr y cartref wrthym y gallai'r cartref fod yn lanach. Mae'r problemau iechyd a diogelwch yn parhau, ac nid ydynt yn hybu llesiant y bobl felly mae'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn parhau'n weithredol. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r materion hyn.

Mae angen cryn dipyn o waith ar rannau eraill o'r cartref o hyd er mwyn gwella ansawdd bywyd a llesiant y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae rhai ystafelloedd gwely wedi cael lloriau newydd a dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn fodlon ar y llawr newydd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi comisiynu contractwyr allanol i ymdrin â'r materion. Mae problemau amgylcheddol yn parhau ac mae risg parhaus i lesiant y bobl, felly mae'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn parhau'n weithredol. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â hyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn y gwasanaeth ar hyn o bryd yn rhoi cymorth rheoli o ddydd i ddydd. Nid oes rheolwr yn y gwasanaeth, felly mae gweithwyr gofal uwch yn gyfrifol am rai o'r tasgau rheoli. Mae prosesau recriwtio ar waith, gan gynnwys prosesau i recriwtio rheolwr a staff domestig. Dywedodd y staff wrthym y cânt eu cefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol ac mae morâl y staff wedi gwella.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi llunio adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at farn y bobl, ond nid yw'n dangos tystiolaeth bod yr Unigolyn Cyfrifol wedi gofyn i'w teuluoedd, y staff a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref am eu barn am y gwasanaeth er mwyn llywio gwelliannau. Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi dadansoddi gwybodaeth archwilio mewn perthynas â marcwyr ansawdd yn y gwasanaeth fel digwyddiadau a damweiniau, cyfraddau cwympiadau, diogelu, materion staffio a materion amgylcheddol. Felly, mae sawl problem a nodwyd gennym yn yr arolygiad diwethaf yn parhau.

Mae problemau arweinyddiaeth a rheolaeth yn barhaus ac nid ydynt yn hybu iechyd a llesiant y bobl, felly mae'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn parhau'n weithredol. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r materion hyn.

Gwnaed gwelliannau ar gyfer hyfforddi a goruchwylio'r staff. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu, hylendid bwyd, symud a chodi cleientiaid a chymorth cyntaf. Gwnaethom bwysleisio i'r Unigolyn Cyfrifol y dylai cyfleoedd hyfforddiant fod yn barhaus i alluogi'r staff i ddiweddaru eu sgiliau ac i gynnal eu cofrestriad â Gofal Cymdeithasol Cymru. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu goruchwylio; gwnaethom esbonio bod angen cynnal hyn yn absenoldeb rheolwr.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 66 | Nid yw'r darparwr wedi goruchwylio'r broses o reoli'r gwasanaeth yn ddigonol i sicrhau bod rheolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth yn briodol. | Heb Gyflawni |
| 57 | Ni all y bobl bob amser fod yn dawel eu meddwl fod yr holl risgiau ymarferol iddynt yn cael eu lliniaru cymaint â phosibl. | Heb Gyflawni |
| 56 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod rhai rhannau o'r cartref yn cyrraedd safonau hylendid rhesymol. | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Mae'r broses o storio cyffuriau a reoli yn annigonol. Rhaid i’r darparwr gwasanaeth gael trefniadau yn eu lle i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/10/2023